Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Y Bil Cynhyrchion Plastig Untro

Mynediad at wellt plastig untro i **bobl anabl**

## Pam ydym yn gwneud hyn?

Rydym am i Gymru fod yn rhydd o blastig untro diangen (SUP). Drwy wahardd neu gyfyngu ar y cyflenwad o gynhyrchion sy'n cael eu taflu'n sbwriel yn aml byddwn yn osgoi gadael gwaddol plastig gwenwynig i genedlaethau'r dyfodol ddelio ag ef. Bydd hefyd yn ein helpu i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

## Pa gynhyrchion plastig untro sy'n cael eu gwahardd?

Mae **Cam 1** yn cynnwys gwaharddiadau ar yr isod:

- Platiau
- Cytleri
- Troyddion diodydd
- Gwellt yfed
- Ffyn balwnau
- Ffyn cotwm â choesyn plastig
- Cwpanau wedi'u gwneud o bolystyren ewynnog
- Cynwysyddion cludfwyd sydd wedi'u gwneud o bolystyren ewynnog

Mae **Cam 2** yn cynnwys gwaharddiadau ar yr isod:

- Cwpanau a chaeadau cynwysyddion cludfwyd wedi'u gwneud o bolystyren
- Cynhyrchion plastig ocso-ddiraddadwy
- Bagiau siopa (meintiau penodol)

## Gwellt plastig untro ar gyfer pobl anabl

- Os oes angen gwelltyn plastig untro arnoch mewn safle sy'n darparu bwyd a diod, gallwch ofyn am un, neu gall rhywun ofyn ar eich rhan. Ni fydd rhaid i chi brofi eich bod ei angen.
- Os oes angen i chi brynu pecyn o wellt plastig untro, gallwch eu prynu mewn fferyllfa gofrestredig (gan gynnwys ar-lein). Ni fydd rhaid i chi brofi eich bod ei angen.
- Os ydych yn cael eich derbyn i leoliad iechyd neu ofal cymdeithasol, fel ysbyty neu gartref gofal, ac mae angen gwellt plastig untro arnoch, gallwch ofyn am un. Ni fydd rhaid i chi brofi eich bod ei angen.
- Bydd canllawiau cynhwysfawr yn cael eu cyhoeddi'r flwyddyn nesaf.

**6 Rhagfyr 2022** – Y Bil yn cael ei basio yn y **Senedd**

**Rhagfyr 2022 – Mai 2023** – Datblygu **canllawiau cynhwysfawr**

**Haf 2023** – Cyhoeddi **canllawiau cynhwysfawr**

**Hydref 2023** – **Gwaharddiadau Cam 1** yn dod i rym

**2023–2026** – **Gwaharddiadau Cam 2** i ddod yn ystod Tymor y Senedd hon

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru WG46357